



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

60/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

TACHWEDD 29, 2018

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Cam 4, Hydref 2018

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 4, Hydref 2018

Anthony Lydall ac Amy Childs, Strategic Research and Insight



Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Dr. Robert Lewis, Pennaeth Ymchwil Twristiaeth, robert.lewis@gov.cymru

Adran: Adran Gwyddoniaeth, yr Economi a Thrafnidiaeth

Canolfan QED

Ystad Trefforest

Pontypridd

Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6026

ISBN: 978-1-78964-445-6

Tachwedd 29, 2018

© Hawlfraint y Goron 2018



Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y

Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

1. PRIF GANFYDDIADAU.....	2
2. CANFYDDIADAU ANSODDOL	3
3. CEFNDIR A METHODOLEG.....	7
4. PERFFORMIAD YR HYDREF	7
5. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR.....	12
6. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR	13
7. PERFFORMIAD YN ÔL Y FARCHNAD.....	14
8. PROFFIDIOLDEB	16
9. ARCHEBION YMLAEN LLAW AR GYFER 2019.....	18
10. MARCHNATA CROESO CYMRU YN 2019.....	19
11. AWGRYMIADAU AM GYNGOR A GWYBODAETH	21
12. HYDER AR GYFER 2019.....	23

1. PRIF GANFYDDIADAU

Tymor yr hydref sefydlog yn dilyn haf braf

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau (78%) wedi cynyddu neu gynnal eu lefelau ymwelwyr yr hydref hwn. Ymysg y 27% sydd wedi gweld cynnydd yn eu hymwelwyr, y rheswm mwyaf cyffredin yw 'hunan-farchnata' - a nodwyd gan tua thraean o'r ymatebwyr hyn. Mae'n debyg bod y tywydd braf dros yr haf hefyd wedi chwarae rhan gan iddo annog ymwelwyr i barhau i drefnu triapiau i'r DU yn yr hydref.

De-ddwyrain Cymru yn perfformio'n dda

Mae de-ddwyrain Cymru yn perfformio'n dda – mae 35% o fusnesau wedi cynyddu eu lefelau ymwelwyr yr hydref hwn. 'Hunan-farchnata' yw'r rheswm a nodwyd gan amlaf (43% o ymatebwyr).

Nid yw rhanbarthau eraill o Gymru yn gwahaniaethu'n sylweddol oddi wrth ei gilydd o ran perfformiad cyffredinol.

Mae sectorau heb lety wedi gwneud yn well yn gyffredinol

Mae'r sectorau heb lety fel bwytaï / tafarndai / caffis a darparwyr atyniadau a gweithgareddau wedi gwneud ychydig yn well o ran cynyddu nifer yr ymwelwyr. Mae tua dau allan o bump (39%) o fwytai / tafarndai / caffis wedi cynyddu eu hymwelwyr - mae llawer o'r rhain (54%) yn nodi ymwelwyr dychwel fel rheswm.

Mae busnesau'n hyderus ar gyfer 2019 er gwaethaf ansicrwydd Brexit

Yn dilyn hydref sefydlog ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o fusnesau (84%) nawr yn hyderus ar gyfer 2019. Mae hyn er gwaethaf y pryderon sydd gan rai ynghylch effaith Brexit ar ymwelwyr Ewropeaidd, a'r holl sôn am ansicrwydd Brexit yn y newyddion adeg y cyfweiliadau.

2. CANFYDDIADAU ANSODDOL

- 2.1 Rydym wedi cynnal cyfveliadau manwl dros y ffôn â ffigurau twristiaeth allweddol o sefydliadau a chyrff amrywiol ledled Cymru. Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

Lefelau ymwelwyr cyson yr hydref hwn

- 2.2 Mae llawer o'r rhanddeiliaid wedi profi tymor hydref a hanner tymor yr Hydref da arall ar gyfer busnes. Prin y mae gweithredwyr yn gweld unrhyw wahaniaeth mewn perfformiad o gymharu â'r un adeg y llynedd.

"Mae rhai darparwyr llety yn dweud eu bod yn brysur tan ddiwedd mis Hydref ... roedd llawer ohonyn nhw'n llawn ar gyfer hanner tymor."

"Mae'n debyg ei bod wedi bod yn... dwi'n dweud prysur, ond mae'n adeg dawelach i'r sector."

"Eithaf da, ond ddim yn eithriadol o dda ... dros fis Hydref yn gyfan gwbl, roeddwn tua 60% yn llawn."

Busnesau'n dal i elwa ers yr haf

- 2.3 Mae arweinwyr y diwydiant yn credu bod y tywydd yn ystod yr haf wedi annog ymwelwyr i drefnu tripiâu yn y DU yn yr hydref.

"Mae'r sylwadau cyffredinol [ynghlŷn â bod yn brysur] oherwydd tywydd yr haf."

"Rwy'n credu mai oherwydd y tywydd yn gyffredinol ... mae wedi bod mor braf dros yr haf – mae pobl yn llai tebygol o fynd dramor."

Digwyddiadau ac atyniadau yn denu ymwelwyr i Gymru

- 2.4 Ffactor arall sy'n debyg o ddenu ymwelwyr i rannau penodol o Gymru yw'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar yr adeg hon o'r flwyddyn.

"Rydym wedi cael cynnydd mewn ymwelwyr i'r castell oherwydd ein bod wedi cael atyniadau newydd yno ers ddiwedd mis Awst, felly rydym wedi cael cynnydd mawr mewn ymwelwyr [i'r ardal] yn gyffredinol."

"Mae hanner tymor yr Hydref bob amser yn brysur iawn. Mae pob eiddo yn gwneud rhywbeth ar gyfer Calan Gaeaf, p'un a yw'n gerfio pwmpen, ymlwybro ... mae bob amser yn fis prysur."

"Mwy o ymwelwyr i'r gemau rygbi rhyngwladol"

Ymatebion cymysg ynglŷn â ble i flaenoriaethu marchnata...

- 2.5 Mae ymatebion rhanddeiliaid yn amrywio o ran pa wledydd y dylai Croeso Cymru eu blaenoriaethu i farchnata ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae rhai o'r cyfweleion yn awgrymu y dylai ymdrechion hyrwyddol gael eu marchnata ychydig yn nes at gartref, o fewn gweddill y DU a Lloegr yn enwedig. Mae hyn oherwydd eu bod yn credu bod mwy o bobl Brydeinig yn chwilio am wyliau yn y DU.

"Rwy'n cael mwy o ymwelwyr o Loegr nag unrhyw le arall, felly dyna fyddai fy nghyngor i ... rwy'n tybio na ddylech fod yn blaenoriaethu'r hyn ry'ch chi'n ei gael yn barod, ond mae mwy a mwy o bobl yn chwilio am wyliau yn y wlad hon."

- 2.6 Yn ogystal, mae un arweinydd yn y diwydiant yn credu y byddai dinasoedd mawr yn Lloegr, yn enwedig Llundain, yn gyfle da i farchnata oherwydd y gallwch ddenu amrywiaeth o ymwelwyr, rhai o'r wlad neu dramor.

"Rydych yn denu pobl o gartref ac yn cadw'r arian yn y wlad. Yna os edrychwch chi ar Lundain, cewch ystod eang o bobl, p'un a ydynt yn alltud o dir mawr Ewrop, dinasyddion y DU - gallwch gwmpasu ystod eang o bobl yno, ond yn cadw'r arian yn y DU."

- 2.7 Fodd bynnag, mae un o'r rhanddeiliaid yn trafod seilwaith meysydd awyr a theithiau hedfan i Faes Awyr Caerdydd ac yn awgrymu y dylai Croeso Cymru fod yn edrych ymhellach, yn enwedig i farchnadoedd Tsieina ac India.

"Rwy'n treulio llawer o amser dramor ac yn gweld llawer o farchnadoedd Tsieina ac India yn tyfu. Mewn geiriau eraill, nhw yw twristiaid y dyfodol gyda mwy o arian parod wrth law."

... ond, mae ansicrwydd Brexit yn gwneud hyn oll yn anodd

- 2.8 Serch gwneud ambell i awgrym, mae arweinwyr y diwydiant yn wyliadwrus ynglŷn â'r ansicrwydd sydd ynghlwm â Brexit a ddim yn gwybod sut fydd y fasnach dwristiaeth yn cael ei heffeithio. Golyga hyn ei bod yn anodd gwybod ble i flaenoriaethu marchnata.

"Mae mor anodd gwybod beth yw ein sefyllfa ar hyn o bryd a pha effaith fydd Brexit wedi'i chael erbyn mis Mawrth. Fy nheimplad i yw na fydd yn cael gormod o effaith a bydd pobl yn dal i deithio i Ewrop ac oddi yno."

"Rwy'n tybio oherwydd na wyddom faint fydd dylanwad Brexit ar hyn o bryd."

"Mae'n anodd dweud â Brexit oherwydd gallech ddweud fod gwledydd yr UE yn wan fel y bunt ar hyn o bryd ... ond, wedi dweud hynny, pwysydd i wybod beth sy'n mynd i ddigwydd erbyn y flwyddyn nesaf, felly alla'i ddim dweud. Mae'r holl beth yn ansefydlog ac felly, mae'n anodd iawn i ni ddweud mai dyna ddylai Croeso Cymru ganolbwyntio arno."

Amrywiaeth o awgrymiadau am wasanaethau gwybodaeth a chyngor

- 2.9 Mae arweinwyr y diwydiant yn argymhell ffyrdd gwahanol y gallai Croeso Cymru helpu busnesau i ffynnu. Mae bron i'r holl gyfweleion yn cynnig rhywbeth unigryw yn seiliedig ar eu profiadau gyda'u haelodau.
- 2.10 Hoffai dau o'r rhanddeiliaid weld Croeso Cymru yn darparu cyngor marchnata, yn enwedig pan mae'n dod i farchnata ar-lein. Hoffai un o'r rhanddeiliaid yn benodol gael cyngor ar ddewis yr asiantaethau archebu cywir.

"Cyngor marchnata, yn enwedig gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol megis Facebook, Twitter, a sut i wneud i wefannau weithio'n well. Byddai unrhyw gyngor ar hynny o fudd mawr."

"Mae gennych rai darparwyr llety sy'n gwybod yn iawn pa asiantaethau i'w defnyddio ac mae gennych rai eraill sydd heb unrhyw syniad o gwbl. Felly, dwi'n credu byddai cael cyngor ar bwy i ddewis, pwy i osgoi, comisiwn, gwybodaeth am sut i hyrwyddo eu busnes oherwydd bod y maes mor gystadleuol. Byddai hynny'n ddefnyddiol iawn."

- 2.11 Hoffai un o'r cyfweleion weld rhyw fath o gymorth ariannol er mwyn helpu i redeg y cymdeithasau twristiaeth bach o'r safbwynt gweinyddol. Fe ychwanegodd hefyd y byddai cymorth ar sut i lenwi ffurflenni cais i ariannu prosiectau yn fuddiol hefyd.

"Byddai swm bach, bach o arian, hyd yn oed tri, pedwar, pum can punt yn rhoi'r cyfle inni dderbyn rhywfaint o gymorth gweinyddol i gadw ein cymunedau twristiaeth i fynd. Nid yn unig y mae'n bwysig o safbwynt rhwydweithio ond hefyd er mwyn dod o hyd i ddatblygiadau newydd, beth sy'n arloesol, beth mae pobl eraill yn ei wneud."

"Mae ein cymdeithas leol yn ceisio dod o hyd i arian am ei phrosiect ... Fel rhywun sy'n gweithio yn y gymdeithas leol, does gen i ddim unrhyw syniad sut i lenwi'r ffurflenni [grant] hyn o gwbl. Felly, mae angen inni gael rhywun sy'n gallu ein helpu i lenwi ffurflenni i wneud cais am grantiau."

- 2.12 Hoffai rhanddeiliad arall weld gwybodaeth ystadegol fanylach gan Croeso Cymru, gan gynnwys proffiliau'r gynulleidfa ac i ffigurau gael eu rhannu fesul rhanbarth a dinas.

"Mae gan VisitEngland lawer o wybodaeth fanwl iawn fel yr '20 atyniad uchaf am ddim', a'r '20 atyniad uchaf â thâl'. Nid yw gwybodaeth Croeso Cymru mor fanwl ... credaf pe bai mwy o ddatblygiadau ar y mathau hynny o bethau, gallwn edrych am dueddiadau allanol."

Cyfuniad o hyder a gofal ar gyfer 2019

- 2.13 Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr y diwydiant yn teimlo'n hyderus am y flwyddyn nesaf ac yn gobeithio am ragor o dywydd braf a fydd yn parhau i ddenu ymwelwyr.

"Eithaf hyderus ... mae archebion yn eu lle ar gyfer y flwyddyn nesaf yn barod ac mae'n amlwg bod pobl wedi'u brwdfrydu gan dywydd eleni ac yn barod wedi archebu ar gyfer y flwyddyn nesaf."

"Mae pawb yn dal i fod yn eithaf cadarnhaol am 2019."

"Rwyf bob amser yn hyderus ... gallwn ond obeithio y cawn dywydd cystal y flwyddyn nesaf eto ac y bydd hynny'n dod â chanlyniadau gwell o ganlyniad, ac efallai bydd mwy o bobl yn aros gartref yn hytrach na mynd dramor."

- 2.14 Disgrifiodd un rhanddeiliad iddo deimlo'n fwy pryderus na hyderus ynglŷn â 2019 o ganlyniad i ansicrwydd Brexit a pheidio â gwybod p'un a fydd unrhyw effaith yn dda neu'n wael i dwristiaeth.

"Rwy'n credu y bydd pethau'n wahanol iawn y flwyddyn nesaf. Mae Brexit ym mis Mawrth felly dwi'n credu y bydd hynny'n effeithio ar bethau'n fawr, a dwi ddim yn gwybod p'un a yw'n mynd i fod yn dda neu'n wael ... Dwi'n bryderus - dyna'r gair y byddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer y flwyddyn nesaf yn hytrach na hyderus."

3. CEFNDIR A METHODOLEG

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 3.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Arolwg wedi'i gynnal ar ffurfiau amrywiol ers 2005, ac fel arfer cynhelir rhwng dau a phum 'cam' ymchwil bob blwyddyn.
- 3.2 Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â tymor yr hydref yn 2018, gyda mesuriadau hefyd o ddisgwyliadau ar gyfer 2019.

Sut y cynhelir yr Arolwg?

- 3.3 Rydym wedi cynnal 800 o gyfweiliadau dros y ffôn. Mae hwn yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.5\%$. Mae'r sampl yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru, ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	97	23	77	57	254
Llety hunanarlwyo	118	45	91	39	293
Meysydd carafanau/pebyll	41	9	20	5	75
Hostelau	6	7	7	6	26
Atyniadau	26	12	13	22	73
Gweithredwyr gweithgareddau	15	7	13	5	40
Bwytaï / tafarndai / caffis	8	12	7	12	39
Cyfanswm	311	115	228	146	800


- 3.4 Mae tri chwarter (77%) o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd, ac mae 23% heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytaï / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol. Mae gweithredwyr bwytaï, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid ar draws gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (h.y. nid cwsmeriaid lleol).

3.5 Cynhaliwyd pob cyfweiliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnes ym mis Tachwedd. Ceir copi o'r holiadur fel atodiad.

Cam	Enw'r cam	Cyfnod amser
Cam 1, 2016	Y Pasg	26 Mawrth i 10 Ebrill
Cam 2, 2016	Hanner tymor mis Mai	28 Mai i 5 Mehefin
Cam 3, 2016	Haf	Mehefin i Awst
Cam 4, 2016	Hydref	Medi i ddechrau Tachwedd
Cam 1, 2017	Y Pasg	8 Ebrill i 23 Ebrill
Cam 2, 2017	Hanner tymor mis Mai/Mehefin	27 Mai i 4 Mehefin
Cam 3, 2017	Haf	Mehefin i Awst
Cam 4, 2017	Hydref	Medi i ddechrau mis Tachwedd
Cam 1, 2018	Y Pasg	30 Mawrth i 15 Ebrill
Cam 2, 2018	Hanner tymor mis Mai/Mehefin	26 Mai i Mehefin 3
Cam 3, 2018	Haf	Mehefin i Awst
Cam 4, 2018	Hydref	Medi i ddechrau mis Tachwedd

4. PERFFORMIAD YR HYDREF

PERFFORMIAD FESUL SECTOR



Ffigurau ymweld yn parhau'n gyson ar gyfer yr hydref

- 4.1 Mae'r rhan fwyaf o fusnesau (78%) wedi cynyddu neu gynnal lefelau eu hymwelwyr hydref eleni.

"Mae 70 y cant o'n cwsmeriaid yn rai dychwel"
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

"Cawsom fwy o ymwelwyr am inni gynnal digwyddiadau yn ystod yr hanner tymor ar gyfer Calan Gaeaf ac arddangosfa ar gyfer noson tân gwyllt."
Parc carafanau, y Canolbarth


"Mae busnes yn dawelach na hydref 2017"
Bwyty, y De-ddwyrain

Mae sectorau heb lety wedi gwneud yn well yn gyffredinol

- 4.2 Mae'r sectorau heb lety fel bwyta / tafarndai / caffis a darparwyr atyniadau a gweithgareddau wedi gwneud ychydig yn well o ran cynyddu nifer yr ymwelwyr. Mae tua dau allan o bump (39%) o fwyta / tafarndai / caffis wedi cynyddu eu hymwelwyr - mae llawer o'r rhain (54%) yn nodi ymwelwyr dychwel fel rheswm.

"Mae busnes yn bendant yn fwy prysur o'i gymharu â llynedd"
Bwyty, y De-ddwyrain

TUEDD O RAN PERFFORMIAD



Perfformiad yr hydref yn fwy cyson o lawer na'r blynyddoedd blaenorol


4.3 Ar ôl dwy flynedd addawol o dymhorau'r hydref, eleni, mae'n ymddangos bod gweithredwyr yn cadw nifer yr ymwelwyr yn hytrach na denu gryn dipyn yn fwy. Mae sylwadau agored yn datgelu bod rhai gweithredwyr nawr yn ei gweld yn anoddach cynyddu ymwelwyr.

"Mae busnes yn arafu ac mae'n anoddach cael mwy o ymwelwyr"
Maes carafanau a gwersylla, y Gogledd

"Mae'n mynd yn anoddach denu archebion ymlaen llaw"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Mae'n anoddach cael archebion nawr, mae'n fwy cystadleuol"
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

PERFFORMIAD FESUL RHANBARTH



Perfformiad calonogol De-ddwyrain Cymru


- 4.4 Mae De-ddwyrain Cymru wedi perfformio'n well na'r tri rhanbarth arall yr hydref hwn. 'Hunanfarchnata' yw'r rheswm a nodwyd gan amlaf dros fod yn brysurach - mae 43% o'r ymatebwyr yn dweud hyn.

"Mae marchnata newydd o bosibl wedi helpu i gynyddu archebion"
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

"Rydym wedi cael mwy o bobl ifanc o Ewrop. Maen nhw'n archebu ar-lein, yn aml ychydig ddiwrnodau cyn cyrraedd."
Hostel, y De-ddwyrain

- 4.5 Nid yw rhanbarthau eraill o Gymru yn gwahaniaethu'n sylweddol oddi wrth ei gilydd o ran perfformiad cyffredinol. Mae pob un wedi profi hydref cyson ar y cyfan.

5. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR



Hunanfarchnata'n dod â gwobrwyon

- 5.1 Er i'r diwydiant groesawu tywydd hyfryd yn ystod misoedd cynnar yr haf, mae hunanfarchnata'n cael ei nodi gan dri allan o ddeg o fusnesau (31%) fel y prif rheswm dros y cynnydd mewn ymwelwyr yr hydref hwn.

"Marchnata newydd oherwydd bod cwmni gwahanol wedi disodli'r hen gwmni eleni"
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain


"Rydym wedi gwneud rhaglenni rhyngwladol gydag ysgolion yn Tsieina a Kuwait"
Gweithredwr gweithgareddau, y De-orllewin

"Rydym yn cael mwy o geisiadau am wybodaeth ar y wefan"
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

Tywydd da yn dal i ddenu ymwelwyr

- 5.2 Mae'n ymddangos bod y diwydiant twristiaeth yn dal i fanteisio ar lwyddiannau'r haf llewyrchus. Mae 29% o fusnesau yn nodi'r tywydd fel ffactor sylweddol sy'n cyfrannu at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr. Caiff hyn ei gefnogi gan y canfyddiadau ansoddol a drafodwyd yn gynharach.

6. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR



Poblogrwydd Airbnb

6.1 Mae'r sectorau llety â gwasanaeth a llety hunanddarpar yn arbennig yn parhau i wynebu her o ganlyniad i gystadleuaeth pris isel. Mae'n ymddangos bod hyn o ganlyniad i Airbnb yn bennaf. Mae rhai gweithredwyr wedi penderfynu cofrestru hefyd.

"Dwi'n cael y rhan fwyaf o fy archebion drwy Airbnb. Dwi ond wedi bod gyda nhw ers blwyddyn."

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Roeddem yn dawelach oherwydd nad ydym ar Airbnb"

Llety hunanddarpar, y Gogledd

"Mae mwy o gystadleuaeth pris isel yn y farchnad nawr. Mae'n anoddach cael archebion."

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin


Mae rhai busnesau'n dirwyn i ben

6.2 Nid yw pob busnes twristiaeth yng Nghymru yn hyrwyddo ei hun. Mae rhai busnesau'n rhai ffordd o fyw ac nid twristiaeth yw prif incwm y perchennog. Mae perchnogion eraill yn dirwyn eu busnes i ben oherwydd oedran.

"Rydym yn cau ar ddiwedd y flwyddyn. Rwy'n 81."

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

7. PERFFORMIAD YN ÔL Y FARCHNAD



Sail: Amrywiol

Marchnad y DU yn dal i berfformio'n dda

7.1 Fel y gwelwyd yn yr haf, mae marchnad y DU (y tu allan i Gymru) yn perfformio'n well na'r llynedd. Gan ystyried ei bwysigrwydd i ddiwydiant twristiaeth Cymru, mae hyn yn galonogol iawn. Mae'r farchnad hon ar gynnydd ym mhob sector a rhanbarth yng Nghymru.

Marchnadoedd Brexit ac Ewropeaidd - safbwyntiau a phrofiadau gwahanol eleni

7.2 Mae perfformiad marchnadoedd Ewropeaidd eleni yn gymysg. Mae prif farchnad yr Almaen yn gyson ar y cyfan, mae Gweriniaeth Iwerddon wedi gostwng, ac mae gweddill Ewrop ar gynnydd ar y cyfan

7.3 Mae rhai gweithredwyr yn dweud bod Brexit wedi lleihau lefelau ymwelwyr o Ewrop, ac mae eraill yn dweud eu bod wedi cynyddu.

"Mae Brexit wedi dangos ei effaith yn barod – llai o ymwelwyr o Ewrop"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Mwy o ymwelwyr o Ewrop eleni er gwaethaf Brexit"
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

"Rydym yn cael llawer o Almaenwyr am fod gan gwmnïau Almaenig gysylltiadau â'r ardal"
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

“Rydym wedi cael ychydig mwy o'r Iseldiroedd eleni”
Parc carafanau, y De-ddwyrain

Gweddill y byd

- 7.4 Mae marchnad 'Gweddill y byd' (y tu allan i Ewrop a Gogledd America) wedi cynyddu ychydig ers y llynedd. Mae'r enghreifftiau o wledydd sydd ar gynnydd yn amrywio. Mae Tsieina ac Awstralia wedi'u crybwyll, fel y mae marchnadoedd pellter hir eraill hefyd, lle mae ymwelwyr sy'n dod i Gymru yn ymddangos i fod yn falch iawn o'u profiad.

“Rydym yn cael llawer o ymwelwyr o Tsieina. Mae'r safon yma yn creu argraff fawr arnynt.”


Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

“Rydym wedi cael grwpiau ysgol o Fecsico a Costa Rica”
Gweithredwr gweithgareddau, y Canolbarth

“Rydym wedi cael llawer o ymwelwyr o Wlad y Tai, Tsieina ac India yn ddiweddar ... maen nhw wrth eu bodd yma”

Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

8. PROFFIDIOLDEB



Canlyniadau'n amrywio fesul sector

- 8.1 Mae'r sectorau heb lety wedi mwynhau blwyddyn o elw da. Mae hostelau a meysydd carafannau a gwersylla hefyd wedi perfformio'n dda, ond mae'r sector llety â gwasanaeth wedi cael blwyddyn gymysg, a llety hunanddarpar wedi wynebu heriau. Mae gweithredwyr llety hunanddarpar a llety â gwasanaeth llai wedi wynebu llawer o gystadleuaeth pris isel gan Airbnb eleni.

"Roedd eleni'n ofnadwy. Mae Airbnb yn mynd â'n cwsmeriaid i gyd."


Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

- 8.2 Hefyd, dechreuodd y flwyddyn â thywydd gaeafol hir a gwael tan ddechrau Ebrill. Mae rhai busnesau wedi cael amser anodd yn ceisio dal fyny ers hynny.

"Roedd tymor y gwanwyn eleni'n ofnadwy"

Llety hunanddarpar, y Gogledd


TUEDDIADAU O RAN PROFFIDIOLDEB



Tuedd o ran proffidioldeb yn adlewyrchu'n fanwl y duedd o ran nifer yr ymwelwyr

8.3 Mae tuedd o ran proffidioldeb yn awgrymu nad yw adferiad yn lefelau ymwelwyr eleni wedi dod ar draul gostwng prisiau. Mae rhai canlyniadau hanesyddol (e.e. yn ystod dirwasgiad) yn dangos bod cynnal neu gynyddu lefelau ymwelwyr yn gallu digwydd ar draul proffidioldeb.

9. ARCHEBION YMLAEN LLAW AR GYFER 2019



Archebion ymlaen llaw yn edrych yn eithaf llewyrchus ar gyfer y flwyddyn nesaf

- 9.1 Mae archebion ymlaen llaw ar gyfer darparwyr llety yn edrych yn eithaf llewyrchus a sefydlog ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn gyffredinol, mae archebion ymlaen llaw yn rhagori ar ddisgwyliadau ar gyfer chwarter (25%) o fusnesau, ac yn cwrdd â disgwyliadau ar gyfer dros hanner (55%).

"Rwy'n llawn am hyd at dri mis yn 2019"

Llety hunanddarpar, y De-orllewin


"Nifer o archebion yn barod ar gyfer 2019 - mae'n edrych yn addawol"

Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

"Yn barod yn llawn ar gyfer haf 2019"

Llety hunanddarpar, y De-orllewin

10. MARCHNATA CROESO CYMRU YN 2019



Ffocws cryf ar ymwelwyr cartref yn y diwydiant

10.1 Pan ofynnwyd ble byddai busnesau'n hoffi gweld Croeso Cymru'n blaenoriaethu ei farchnata y flwyddyn nesaf, roedd dymuniad amlwg iawn i weld ffocws ar ymwelwyr cartref.

Fodd bynnag, mae De-ddwyrain Cymru'n wahanol

10.2 Mae De Cymru'n wahanol i ranbarthau eraill am ei fod yn canolbwyntio'n fwy ar ymwelwyr o dramor. Nid yw ei ganlyniadau ar gyfer gwledydd mawr Ewrop ac UDA yn wahanol iawn i farchnadoedd y DU. Er enghraifft, mae'r un faint o fusnesau yn Ne-ddwyrain Cymru yn dweud 'yr Almaen' â 'Lloegr' (37%). Maent wedi arfer gweld mwy o ymwelwyr o dramor yn dod i ddigwyddiadau o gymharu â rhanbarthau eraill.

"Mae digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru – rygbi a Chynghrair y Pencampwyr – wedi denu llawer mwy o ymwelwyr o dramor yn y blynedd diwethaf"
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

Llety â gwasanaeth yn gwahaniaethu oddi wrth sectorau eraill

- 10.3 Mae'r sector llety â gwasanaeth bob amser â mwy o ffocws ar ymwelwyr o dramor. Yn debyg i ganlyniadau De-ddwyrain Cymru, mae'r dymuniad i weld Croeso Cymru yn marchnata yng ngwledydd mawr Ewrop ac UDA yn eithaf hafal i ranbarthau'r DU. Mae'r sectorau eraill, mewn cymhariaeth, yn canolbwyntio'r fwy ar ymwelwyr o gartref.

Mae rhai safbwyntiau'n dibynnu ar ganlyniad Brexit

- 10.4 Ymhlith y rheiny sy'n ateb 'ddim yn gwybod', mae rhai gweithredwyr yn dweud y dylai'r ffocws marchnata ddibynnu ar ganlyniad Brexit.

"Mae'n dibynnu ar Brexit"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Mae pobl o Ewrop yn dweud eu bod yn teimlo nad oes croeso iddynt yn y DU ers Brexit. Hoffwn i Croeso Cymru dargedu mwy o bobl o Awstralia."
Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

11. AWGRYMIADAU AM GYNGOR A GWYBODAETH

- 11.1 Gofynnwyd i fusnesau pa fath o gyngor a gwybodaeth y byddent yn eu gweld yn fwyaf defnyddiol gan Croeso Cymru. Rydym yn trafod y prif themâu isod.

Mae nifer yn ansicr beth i awgrymu

- 11.2 Mae llawer o ymatebwyr nad ydynt wedi rhoi ateb i'r cwestiwn. Ymhlith rhai ymatebwyr, mae'n debyg bod diffyg ymwybyddiaeth o beth y gallai Croeso Cymru ei wneud o bosibl ar gyfer busnesau.

Mae gwybodaeth sy'n helpu ymwelwyr yn werthfawr iawn

- 11.3 Ymhlith y rheiny sy'n rhoi ateb, un o'r themâu cyffredin yw gwybodaeth i ymwelwyr ar ffurf mapiau a phamffledi. Mae gweithredwyr yn dweud eu bod yn gwerthfawrogi gwybodaeth o'r fath sy'n helpu eu hymwelwyr.

"Mae mapiau a phamffledi yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ymwelwyr"
Hostel, y Canolbarth

"Mae mwy o bamffledi a mapiau yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Mae ymwelwyr yn hoffi'r mapiau a'r pamffledi ynglŷn â Sir Benfro wrth ymweld"
Maes carafanau a gwersylla, y De-orllewin

"Mae mapiau a phamffledi'n ddefnyddiol ... yn enwedig ynglŷn ag atyniadau twristiaid"
Hostel, y De-orllewin

Mae angen mwy o rybudd ar weithredwyr ynglŷn â digwyddiadau yn yr ardal leol

- 11.4 Byddai llawer o weithredwyr yn hoffi cael mwy o wybodaeth ymlaen llaw o ran digwyddiadau a gweithgareddau sy'n digwydd yn eu hardal leol. Mae hyn oherwydd eu bod yn teimlo y byddai cael y wybodaeth hon o fudd mawr i'w hymwelwyr, rhag ofn nad ydynt yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth eu hunain.

"Byddwn yn hoffi cael fy hysbysu o ddigwyddiadau mawr, e.e. gwyliau cerddoriaeth, digwyddiadau chwaraeon fel fy mod yn gallu hyrwyddo hyn ar fy ngwefan i'm gwesteion"
Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

"Rydym yn dod i wybod am ddigwyddiadau ar y funud olaf bob amser, sy'n rhwystredig"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

“Rhestr fanylach o'r digwyddiadau yn Sir Benfro. Nid yw bob amser yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth ar-lein”

Maes carafanau a gwersylla, y De-orllewin

Mwy o gefnogaeth ar-lein i fusnesau ac ymwelwyr

- 11.5 Mae rhai gweithredwyr yn effro i ddatblygiad technoleg a Web2.0. Byddent yn hoffi gweld Croeso Cymru yn hyrwyddo mwy o wybodaeth ar-lein drwy eu gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

“Dylai mwy o wybodaeth gael ei rhannu ar-lein. Mae ymwelwyr ifanc yn defnyddio eu dyfeisiau symudol gan fwyaf i gasglu gwybodaeth ynglŷn ag atyniadau twristiaid.”

Hostel, y De-ddwyrain

“Mwy ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd y wybodaeth ar Flwyddyn y Môr y llynedd yn dda iawn”

Maes carafanau a gwersylla, y Gogledd

“Mae ymwelwyr eisiau gwybodaeth a gwasanaethau ar-lein. Maen nhw'n defnyddio technoleg fodern”

Hostel, y De-ddwyrain

Gweithredwyr yn gofyn am ragor o hyrwyddo

- 11.6 Thema arall sy'n codi droeon yw y byddai gweithredwyr yn hoffi petai Croeso Cymru yn cynyddu eu hymdrechion hyrwyddo. Dywedodd un gweithredwr bod hysbysebion teledu yn 'ysgogi pobl'.
- 11.7 Mae rhai yn dweud nad ydynt yn teimlo bod Cymru yn cael ei hyrwyddo gymaint â chenhedloedd eraill y DU, ac mae eraill yn dweud bod y gwaith o hyrwyddo Cymru yn ddetholus.

“Hyrwyddwch Ganolbarth Cymru yn fwy ... maent ond yn hyrwyddo'r De a'r Gogledd, felly dwi'n flin iawn”

Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

“Hyrwyddwch Gymru yn fwy gan nad ydym yn cael ein hyrwyddo gymaint â chenhedloedd eraill y DU”

Gweithredwr gweithgareddau, y De-orllewin

“Gwerthwch Gymru'n fwy fel cenedl. Mae gan Gymru gymaint i'w chynnig ac nid ydym yn cael ein hyrwyddo ddigon dramor.”


Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

“Mae llawer mwy o Americanwyr yn dod i'r DU o ganlyniad i gryfder y ddoler. Maent yn mynd i Lundain yna i'r Alban ac yna i Gymru. Dylai Cymru gael ei hyrwyddo'n fwy i fod y prif atyniad.”

Bwyty, y De-ddwyrain

12. HYDER AR GYFER 2019

HYDER FESUL SECTOR



Hyder ar gyfer 2019 er gwaethaf ansicrwydd Brexit

12.1 Efallai bod effaith Brexit ar y diwydiant yn ansicr ond mae'n amlwg fod y rhan fwyaf (84%) o weithredwyr twristiaeth yn hyderus ar gyfer 2019. Mae'n bosib bod hyn yn adlewyrchu nifer yr archebion ymlaen llaw sydd gan rai ohonyn nhw.

"Mae gennym lawer o archebion yn barod ar gyfer 2019 ac felly rydym yn hyderus iawn"

Maes carafannau a gweryllau, y De-orllewin

"Rwy'n hyderus oherwydd bod gennym lawer o briodasau wedi'u trefnu"

Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

"Disgwylir rhagor o ymwelwyr o dramor y flwyddyn nesaf. Mae gennym archebion o Awstralia ac UDA yn barod."

Hostel, y De-orllewin

12.2 Fodd bynnag, mae'r sylwadau agored yn awgrymu bod rhai gweithredwyr yn teimlo ychydig yn ansicr ynghylch 2019 oherwydd Brexit, er gwaetha'r lefel o hyder a ddengys yn y siart. Mae hyn yn gyson â'r canfyddiadau a gafwyd yn y cyfweiliadau manwl.

"Gall Brexit gael effaith y flwyddyn nesaf. Disgwylir cael llai o ymwelwyr o Ewrop"

Hostel, y De-orllewin

“Mae nifer yr ymwelwyr o dramor wedi gostwng yn sylweddol eleni. Rydym yn ansicr ynglŷn â'r niferoedd y flwyddyn nesaf ar ôl Brexit”
Hostel, y Canolbarth


“Bydd archebion yn dibynnu ar Brexit”
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

12.3 Mae rhai yn gobeithio am flwyddyn arall o dywydd cynnes, yn enwedig meysydd carafanau a gwersylla.

“Rwy'n teimlo'n weddol hyderus ond mae'n dibynnu ar y tywydd”
Maes carafanau a gwersylla, y Gogledd

“Fel busnes gwersylla rydym yn dibynnu ar y tywydd i gael ymwelwyr”
Maes gwersylla, y De-ddwyrain

TUEDD MEWN HYDER



Mae'r hyder yn nodweddiadol am yr amser hwn o'r flwyddyn

12.4 Mae hyder ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn debyg iawn i'r canlyniadau a gofnodwyd yn hydref 2017 a 2016.

“Mae'r busnes yn gwneud yn dda. Disgwyliaid da ar gyfer y flwyddyn nesaf.”
Bwyty, y De-ddwyrain

“Rwy'n hyderus iawn yn seiliedig ar berfformiad eleni”
Gweithredwr gweithgareddau, y De-orllewin

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Holiadur yr Hydref

Sector Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

- Llety â gwasanaeth..... ☐
- Llety hunan arlwyo..... ☐
- Maes carafannau / pebyll ☐
- Hostel ☐
- Atyniad..... ☐
- Cynnal gweithgaredd ☐
- Bwyty / tafarn / caffi ☐

Q1 A yw eich busnes wedi'i sefydlu am fwy na 12 mis?

- Do ☐ Go to Q2
- Naddo ☐ Go to Q8

Q2 O gymharu â'r un cyfnod a llynedd, faint o ymwelwyr yr ydych wedi'u cael yr hydref hwn?

- Yn fwy na'r llynedd ☐
- Tua'r un peth ag y llynedd ☐
- Yn llai na'r llynedd ☐
- Ddim yn gwybod..... ☐

Q3 Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o ymwelwyr? (*Paid a annog, ticiwch bob un perthnasol*)

- Tywydd gwell ☐
- Marchnata eich hun ☐
- Busnes dychwel ☐
- Adferiad economaidd ☐
- Mwy o archebion trwy asiant ar-lein (e.e. booking.com)..... ☐
- Wedi arwyddo fyny i asiantaeth newydd (hunan arlwyo) ☐
- Argymhellion..... ☐
- Cynnydd mewn twristiaeth..... ☐
- Mwy o le / ystafelloedd ☐
- Digwyddiadau yn yr ardal ☐
- Ystafelloedd neu gyfleusterau gwell..... ☐
- Mwy o bobl Prydain yn aros yn y DU..... ☐
- Mwy o ymwelwyr tramor..... ☐
- Ddim yn gwybod..... ☐
- Arall..... ☐

Nodwch reswm / resymau eraill

Q4 Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael llai o ymwelwyr? (*Paid a annog, ticiwch bob un perthnasol*)

Tywydd ☐

Ddim wedi hyrwyddo'r busnes / busnes dirwyn i lawr ☐

Problemau annisgwyl ☐

Hinsawdd economaidd ☐

Cystadleuaeth gref ☐

Twristiaeth wedi gostwng yn yr ardal ☐

Llai o ymwelwyr tramor ☐

Llai o bobl Prydain yn mynd ar wyliau yn y DU ☐

Ddim yn gwybod ☐

Arall ☐

Nodwch reswm / resymau eraill _____

Q5 O edrych ar darddiad eich ymwelwyr, sut mae lefel y busnes hyd yn hyn eleni o bob un o'r marchnadoedd canlynol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

CYFWELYDD: OS YDYNT BYTH YN DERBYN YMWELWYR O UN O'R MARCHNADOEDD ISOD, TICIWCH 'DDIM YN GYMWYS'

	I fyny ar y llynedd	Tua'r un peth a llynedd	I lawr ar y llynedd	Ddim yn gwybod neu ddim yn gymwys
Cymru	☐	☐	☐	☐
O fewn y DU ond tu allan Cymru	☐	☐	☐	☐
Gweriniaeth Iwerddon	☐	☐	☐	☐
Yr Almaen	☐	☐	☐	☐
Gwledydd eraill yn Ewrop	☐	☐	☐	☐
Gogledd America	☐	☐	☐	☐
Gweddill y byd	☐	☐	☐	☐

Q6 Hyd yn hyn eleni, sut mae eich proffidioldeb ar y cyfan o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

I fyny ar y llynedd ☐

Tua'r un peth a llynedd ☐

I lawr ar y llynedd ☐

Ddim yn gwybod / well gen i ddim dweud ☐

Q7 Faint o archebion ymlaen llaw sydd gennych chi ar gyfer 2019?

Yn fwy na'r hyn y byddem fel arfer wedi ei ddisgwyl ar yr adeg hon o'r flwyddyn ☐

Tua'r un faint y byddem fel arfer wedi ei disgwyl ar yr adeg hon o'r flwyddyn ☐

Yn llai na'r hyn y byddem fel arfer yn ei gael ar yr adeg hon o'r flwyddyn ☐

Ddim yn gwybod ☐

Q8 Pa mor hyderus ydych chi am 2019?

Hyderus iawn ☐

Eithaf hyderus ☐

Ddim yn hyderus iawn ☐

Ddim yn hyderus o gwbl ☐

Ddim yn gwybod ☐

Q9 Cyfwelydd: cofnodi'r holl sylwadau defnyddiol ar berfformiad yr hydref hwn, marchnadoedd neu eich hyder ar gyfer 2019.

Q10 Ym mha wledydd ydych chi'n credu y dylai Croeso Cymru flaenoriaethu ei farchnata y flwyddyn nesaf? (*Annog os oes angen, ticiwch hyd at pump blaenoriaeth*)

- | | |
|----------------------------|--------------------------|
| Cymru..... | ☐ |
| Lloegr | ☐ |
| Yr Alban..... | ☐ |
| Gogledd Iwerddon | ☐ |
| Gweriniaeth Iwerddon | ☐ |
| Yr Almaen | ☐ |
| Ffrainc | ☐ |
| Yr Iseldiroedd | ☐ |
| Sbaen | ☐ |
| Unol Daleithiau | ☐ |
| Canada | ☐ |
| Awstralia | ☐ |
| Tsieina..... | ☐ |
| Arall..... | ☐ |

Nodwch blaenoriaeth / blaenoriaethu eraill

Q11 Pa fath o wybodaeth a chyingor fyddai fwyaf defnyddiol i chi gan Croeso Cymru?

Q12 A yw eich busnes wedi'u graddio neu wedi'u hachredu gan Croeso Cymru / Visit Wales?

- | | |
|------------|--------------------------|
| Do | ☐ |
| Naddo..... | ☐ |

Diolch i chi am eich amser